

# Cynllun Casglu

2018/19



*Presenoldeb Materol Zoe Preece*  
Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio, Y Lle Celf 2018 (llun: Dewi Lloyd)

CYNLLUN CASGLU  
COLLECTORPLAN 

 Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

 Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cynnwys

Beth yw'r Cynllun Casglu?	4
Sawl oriel sy'n cynnig y Cynllun Casglu?	4
Sawl celfwaith a brynwyd drwy'r Cynllun Casglu?	4
Map o'r orielau sy'n cynnig y Cynllun Casglu	5
Y Gwaith Celf	7
Yr artistiaid	9
Sut mae pobl yn prynu	10
Y gwerth a gynhychir drwy'r Cynllun Casglu bob mis	11
Rhandaliadau'r benthyciadau	12
Maint y benthyciadau	13

## Beth yw'r Cynllun Casglu?

Mae'n gynllun benthyc di-log Cyngor Celfyddydau Cymru i helpu trigolion Prydain i brynu celfweithiau gwreiddiol gan artistiaid byw. Mae'n cynnig benthyciadau o £50 hyd £5,000 i bobl sy'n dymuno prynu un darn o gelf neu sawl un gan artistiaid byw yng Nghymru. Caiff y benthyciad ei ad-dalu mewn rhandaliadau misol ac wedyn eiddo'r benthyciwr fydd y gwaith.

## Sawl oriel sy'n cynnig y Cynllun Casglu?

O'r 63 oriel yng Nghymru sy'n cynnig y cynllun, roedd 48 oriel wedi gwerthu gwaith yn 2018/19 a 51 oriel yn 2017/18 a 2016/17.

## Sawl celfwaith a brynwyd drwy'r Cynllun Casglu?

Roedd 998 benthyciad yn 2018/19. Mae hyn yn ostyngiad o 15% o'i gymharu â 2016/17 a 2017/18. Cyfanswm gwerth y 998 benthyciad yn 2018/19 yw £847,377.02, gostyngiad o 17% o'i gymharu â 2016/17 a gostyngiad o 14.8% ers 2017/18.


	2016/17	2017/18	2018/19
<b>Nifer y benthyciadau</b>	1177	1179	998
<b>Gwerth y benthyciadau</b>	£1,021,171.45	£994,206.53	£847,377.02
<b>Nifer y celfweithiau*</b>	1,177 *	1,397	1,182
<b>Nifer o artistiaid</b>	516	498	421
<b>Nifer yr orielau a werthodd waith drwy'r Cynllun Casglu</b>	51	51	48

1. Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth	11. Oriol yr Awyr Fawr	21. Oriol Gorsaf Erwyd	31. Oriol Ddiwedd Tachwedd	41. Oriol Ynys Môn	51. Oriol Gŵyr	61. Oriol y Gweithwyr
2. Oriol Albany	12. Crochenwaith Stryd Brook	22. Oriol y Felin	32. Oriol Stryd y Llew	42. Oriol y Parc	52. Oriol yr Ysgub Aur	62. Oriol Gweithdy Cymru
3. Oriol Anne Morgan	13. Galeri Caernarfon	23. Ffin y Parc	33. Canolfan y Celfyddydau, Llantarnam	43. Pafiliwn Pîr Penarth	53. Canolfan Grefft Rhuthun	63. Oriol Gelf a Llyfrgell Wrecsam
4. Oriol Gelf Ganolog	14. Oriol Canfas	24. Celf Gain y Ffynnon, Llandeilo	34. Oriol Mimosa (a Chelf Gain Mimosa)	44. Canolfan Gelf Pontardawe	54. Oriol Simpson	
5. Siop Gelf y Fenni	15. Cantref	25. Celf Gain y Ffynnon, Caerdydd	35. Y Genhadaeth	45. Oriol Deg	55. Y Grand, Abertawe	
6. Celf yn Cyfrif	16. Y Capel	26. Yr Oriol	36. Oriol Gelf Mostyn	46. Oriol Ceri Richards	56. Amgueddfa Abertawe	
7. Oriol yr Atig	17. Chapter	27. Oriol Stryd yr Afr	37. Oriol Myrddin	47. Storiol/Oriol Cyfanswm Bangor	57. Pwynt Siarad (heb ei fapio)	
8. Galeri Betws y Coed	18. Crefft yn y Bae	28. Oriol yr Harbwr	38. Oriol Davies	48. Yr Academi Frenhinol Gymreig	58. Oriol Tegfryn	
9. Oriol Bevan Jones	19. Fframio'r Crefftwr	29. Oriol Goleuadau'r Harbwr	39. Oriol Theatr Clwyd	49. Oriol Dreftadaeth y Rhondda	59. Oriol Martin Tinney	
10. Oriol y Bont	20. Eisteddfod Genedlaethol (Swyddfa)	30. Oriol Stryd y Brenin	40. Oriol Plas Glyn y Weddw	50. Oriol y Crochenwyr	60. Oriol ac Amgueddfa Glynn Vivian	

\*Yn 2017/18 roedd nifer y cyfryngau wedi cael eu cyfateb i nifer yr artistiaid gan fod mwy nag un celfwaith yn gallu bod mewn benthyciad.

# Map o'r orielau sy'n cynnig y Cynllun Casglu

Ble mae'r oriel agosaf atoch chi? Sawl oriel isod rydych chi wedi ymweld â nhw?



2018/19	Sawl benthyciad
<b>Ffin y Parc</b>	196
<b>Oriel a Chelf Gain Mimosa = 2</b>	94
<b>Oriel Stryd y Llew</b>	71
<b>Oriel Albany</b>	61
<b>Oriel Tegfryn</b>	59
<b>Oriel Plas Glyn y Weddw</b>	58
<b>Oriel Martin Tinney</b>	49
<b>Oriel Gorsaf Erwyd</b>	39
<b>Oriel Goleuadau'r Harbwr</b>	30
<b>Oriel yr Atig</b>	28

2017/18	Sawl benthyciad
<b>Ffin y Parc</b>	169
<b>Oriel a Chelf Gain Mimosa = 2</b>	117
<b>Oriel Martin Tinney</b>	74
<b>Oriel Albany</b>	61
<b>Oriel Stryd y Llew</b>	57
<b>Oriel Plas Glyn y Weddw</b>	57
<b>Oriel Tegfryn</b>	54
<b>Oriel Gorsaf Erwyd</b>	53
<b>Celf Gain y Ffynnon, Llandeilo</b>	53
<b>Oriel Ynys Môn</b>	43

2016/17	Nifer y benthyciadau
<b>Ffin y Parc</b>	179
<b>Oriel a Chelf Gain Mimosa = 2</b>	105
<b>Oriel Albany</b>	78
<b>Oriel Tegfryn</b>	70
<b>Oriel Stryd y Llew</b>	67
<b>Oriel Martin Tinney</b>	64
<b>Oriel yr Atig</b>	54
<b>Oriel Gorsaf Erwyd</b>	43
<b>Oriel Plas Glyn y Weddw</b>	36
<b>Celf yn Cyfrif (Stryd y Llew Gwyn)</b>	33

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, prynwyd y nifer mwyaf o gelfweithiau drwy'r Cynllun Casglu yn **Oriel Ffin y Parc** yn **Llanrwst**, (196 benthyciad yn 2018/19, 169 benthyciad yn 2017/18 a 179 benthyciad yn 2016/17).


Roedd y nifer uchaf ond un yn **Oriel Mimosa** yn **Llandeilo** (95 benthyciad yn 2018/19, 117 benthyciad yn 2017/18 a 105 benthyciad yn 2016/17).

Mae 8 oriel wedi ymddangos ym mhob un o'r tair blynedd. Yn 2017/18, y ddwy oriel ychwanegol a gyhoeddodd y 10 uchaf o fenthyciadau oedd Celf Gain y Ffynnon, Llandeilo ac Oriel Ynys Môn. Yn 2018/19, y ddwy oriel a ymddangosodd yn y 10 oriel gyda'r mwyaf o fenthyciadau oedd Oriel Goleuadau'r Harbwr ac Oriel yr Atig.

Gellir gweld rhestr lawn wrth ebostio: [ymchwil@celf.cymru](mailto:ymchwil@celf.cymru)

## Y Gwaith Celf

Math ar gelfwaith a brynwyd drwy'r Cynllun Casglu: 2018/19, 2017/18 a 2016/17



- Olew
- Acrylig
- Cyfrngau Cymysg
- CERAMICS/Terracotta/POTTERY/PORCELAINS
- Darlunio/pen/siarcol
- PRINT/screen/lino etc
- Dyfrlliw
- RESIN (STONE/IRON/WHITE/BRONZE)
- Pren
- GOUACHE
- FABRIC TEXTILE (cynnwys felt/embroidery)
- Gemwaith
- CRAFT OTHER/unknown
- Gwyrdr
- Ysgythriad
- PASTEL
- Cerflunio
- Ffotograffiaeth
- Metel

Fel y nodwyd eisoes, mae nifer y gweithiau drwy'r Cynllun Casglu yn 2018/19 wedi gostwng gan 18.2% o'i gymharu â 2017/18, gyda 1,182 celfwaith wedi'i brynu yn 2018/19 a 1,397 celfwaith wedi'i brynu yn 2017/18.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, olew yw'r math mwyaf poblogaidd drwy'r cynllun casglu (32.7% o'r holl 1,182 celfwaith yn 2018/19, 32.1% o'r holl 1,397 yn 2017/18, 29.1% o'r holl 1,177 yn 2016/17). Mae acrylig, y cyfryngau cymysg a cherameg wedi aros yn gyson o ran eu poblogrwydd dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o gelfweithiau'n lleihau ers 2017/18: acrylig gan 6.9%, y cyfryngau cymysg gan 44.1%, gouache gan 15.4%, pastel gan 77.8%, gwydr gan 79.9% a dyfrlliw gan 65.9%.

Mae'r gwaith darlunio/pen/siarcol wedi cynyddu 30% o'i gymharu â 2017/18, gyda 13 darlun ychwanegol wedi'i brynu yn 2018/19.

Mae'r gwaith resin yn 2018/19 wedi treblu o'i gymharu â 2017/18 gyda chynnydd o 59.4%, gyda 13 darn resin a brynwyd yn 2017/18 a 32 yn 2018/19.

Mae ysgythriad wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf gyda 6 darn wedi'u prynu yn 2016/17, 8 yn 2017/18 a 12 yn 2018/19.

Prynwyd 3 darn pren yn ychwanegol yn 2018/19 nag yn 2017/18 gyda 27 darn wedi'u prynu yn 2017/18 a 30 darn yn 2018/19.

Mae nifer y celfweithiau eraill/anhysbys a brynwyd wedi amrywio yn ystod y tair blynedd diwethaf, gydag 20 yn cael eu prynu yn 2016/17, 41 yn 2017/18 a 15 yn 2018/19.

Y pedwar celfwaith lleiaf poblogaidd dros y tair blynedd diwethaf yw: pastel, cerflunio, ffotograffiaeth a metel. Roedd nifer y rhai metel yn fwy yn 2016/17 gyda 27 darn, ond gostyngodd hyn gan 92.6% yn 2018/19 i 2 ddarn.



## Yr artistiaid

Mae'r tablau isod yn dangos y 10 artist mwyaf poblogaidd y cynllun (gellir gweld rhestr lawn yn Atodiad X). Yn 2018/19, gwaith gan David Grosvenor oedd y mwyaf poblogaidd (28), yna Aled Pritchard Jones (21), Martin Llewellyn (21), Sarah Carvell (19) a Stephen John Owen (19).

Pedwar artist yn ymddangos ym mhob un o'r tair blynedd:

- David Grosvenor
- Martin Llewellyn
- Matthew Wood
- Beatrice Williams

Artist 2018/19	Nifer y celfweithiau a brynwyd	Artist 2017/18	Nifer y celfweithiau a brynwyd
DAVID GROSVENOR	28	MARTIN LLEWELLYN	33
ALED PRITCHARD JONES	21	DAVID GROSVENOR	30
MARTIN LLEWELLYN	21	MEIRION JONES	26
SARAH CARVELL	19	MATTHEW WOOD	22
STEPHEN JOHN OWEN	19	GERALD DEWSBURY	19
MATTHEW WOOD	18	BEATRICE WILLIAMS	17
COLIN SEE PAYNTON	17	CEFYN BURGESS	16
KATIE ALLEN	16	SIAN MCGILL	16
KAREL LEK	16	PETER MORGAN	16
LUNED RHYS PARRI	16	PETER KETTLE	15
BEATRICE WILLIAMS	16	STEPHEN J OWEN	15
		GARETH THOMAS	15

Artist 2016/17	Nifer y celfweithiau a brynwyd
ANEURIN JONES	33
DAVID LLOYD GRIFFITH	24
ELFYN LEWIS	24
COLIN SEE-PAYNTON	24
DAVID GROSVENOR	21
MEIRION JONES	21
KATIE ALLAN	19
MATTHEW WOOD	19
BEATRICE WILLIAMS	18
MARTIN LLEWELLYN	16
SIAN MCGILL	16
ALED PRICHARD JONES	15

Gellir gweld rhestr lawn wrth ebostio: [ymchwil@celf.cymru](mailto:ymchwil@celf.cymru)

## Sut mae pobl yn prynu Pryd digwyddodd y benthyciadau?


Mae'r graff isod yn dangos nifer y benthyciadau bob mis dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n dangos tueddiadau tymhorol, gyda nifer y benthyciadau'n cynyddu'n raddol gan arwain at fisoedd yr haf a lleihau at fisoedd y gaeaf.

Cafwyd y nifer mwyaf o fenthyciadau yn 2016/17 a 2017/18 ym mis Awst, (118 yn 2016/17 a 157 yn 2017/18). Roedd Awst yn cyfrif am 10% o'r holl fenthyciadau yn 2016/17 a 13.3% yn 2017/18. Yn 2018/19, prynwyd y nifer mwyaf o fenthyciadau ym mis Medi gyda 117 ( 11.7%) o'r holl fenthyciadau yn 2018/19.

Y nifer lleiaf o fenthyciadau yn 2016/17 oedd ym mis Ebrill (75) a mis Chwefror (76).

Roedd y nifer lleiaf o fenthyciadau ym mis Rhagfyr (69) a Chwefror (68) yn 2017/18 (5.9%).

Y nifer lleiaf o fenthyciadau yn 2018/19 oedd ym mis Rhagfyr gyda 54 (5.4%).



## Y gwerth a gynhyrchir drwy'r Cynllun Casglu bob mis


Mae'r graff llinell isod yn dangos cyfanswm gwerth (£) benthyciadau'r cynllun bob mis.

Roedd y nifer mwyaf o fenthyciadau yn Awst 2016/17 ond ym mis Gorffennaf 2016/17 roedd y gwerth mwyaf o fenthyciadau, cyfanswm o £116,174.20 gyda gwerth cyfartalog o £1,028.09 ar gyfer pob un o'r 113 benthyciad. Cyfanswm y gwerth ym mis Gorffennaf 2016/17 oedd 11.4% o gyfanswm yr incwm o fenthyciadau yn 2016/17.

Yn Awst 2017/18 roedd y gwerth mwyaf o fenthyciadau sef £141,374.00 gyda gwerth cyfartalog o £900.47 i bob un o'r 157 benthyciad. Mae'r gwerth yn gyson â chyfanswm y benthyciadau fesul mis yn 2017/18. Cyfanswm y gwerth a gynhyrchwyd yn Awst 2017/18 oedd 14.2% o gyfanswm yr incwm o fenthyciadau yn 2017/18.

Yn 2018/19, unwaith eto'n unol â chyfanswm y benthyciadau misol, ym Medi oedd gwerth mwyaf y benthyciadau sef o £111,872.05 gyda gwerth cyfartalog o £956.17 ar gyfer pob un o'r 117 benthyciad. Cyfanswm y gwerth ym Medi 2018/19 oedd 13.2% o gyfanswm yr incwm o fenthyciadau yn 2018/19.

Ym mis Rhagfyr 2018/19 roedd y nifer lleiaf o fenthyciadau (56) a oedd yn werth £49,777.25 gyda gwerth cyfartalog pob benthyciad yn £921.80 (gweler tudalen 9). Ym mis Hydref roedd y gwerth lleiaf yn 2017/18 o £54,930.60, gyda gwerth cyfartalog o £617.20 ar y 89 benthyciad.



Mae'r tabl isod yn dangos gwerth cyfartalog y benthyciadau dros y tair blynedd.




<b>Gwerth cyfartalog y benthyciadau bob mis</b>			
	<b>2016/17</b>	<b>2017/18</b>	<b>2018/19</b>
Ebrill	£761.75	£882.75	£774.14
Mai	£891.68	£847.10	£676.54
Mehefin	£873.00	£822.82	£748.91
Gorffennaf	£1,028.09	£961.66	£980.46
Awst	£747.85	£900.47	£762.36
Medi	£843.66	£843.25	£956.17
Hydref	£932.58	£617.20	£893.26
Tachwedd	£966.70	£843.23	£941.39
Rhagfyr	£779.33	£838.79	£921.80
Ionawr	£771.11	£763.68	£873.11
Chwefror	£749.49	£916.42	£648.26
Mawrth	£978.16	£804.49	£1,003.88

## Rhandaliadau'r benthyciadau


Gall unigolion gael benthyciad a'i ad-dalu'n rhandaliadau dros gyfnod o'r canlynol:

- Llai na 10 mis
- 10 mis
- 12 mis
- 11 hyd 14 mis

Mae'r tair blynedd diwethaf yn dangos patrwm tebyg o ran ad-daliadau. Mae dros dair rhan o bump (tua 60%) o'r holl fenthyciadau ers 2016/17 yn cael eu had-dalu mewn 12 o rhandaliadau misol a thraean yn cael eu had-dalu mewn 10 rhandaliad misol a thua 5% yn cael eu hail-dalu mewn llai na 10 mis.



## Maint y benthyciad: 2016/17, 2017/18 a 2018/19



### Maint y benthyciadau

Roedd bron i ddwy ran o dair o fenthyciadau yn 2018/19 yn £200-£999 gan ddilyn yr un duedd â 2017/18 a 2016/17. Roedd tua 10% o'r benthyciadau am £50-£199 yn y tair blynedd diwethaf.

Roedd bron i draean (32.6%) o'r holl fenthyciadau yn 2018/19 am £200-£499. Dyma'r swm mwyaf poblogaidd gyda 20 rhagor am £200-£499 na £500-£999.

Yn 2017/18, y gwerth benthyciad mwyaf poblogaidd oedd £500-£999, gyda 361 o fenthyciadau ar gyfer y swm yma.

Cafodd 11 rhagor o fenthyciadau £1,500-£2,000 yn 2017/18 nag yn 2016/17. Eto yn 2018/19 roedd 24 yn llai o fenthyciadau am y swm yma.


Un o bob wyth benthyciad yn 2017/18 oedd am £1,000-£1,499.

Mae nifer y benthyciadau £2,001-£2,999 yn lleihau'n raddol ers 2016/17 o 63 i 49 yn 2017/18 a 44 yn 2018/19.

Roedd y nifer lleiaf o fenthyciadau yn 2018/19 am £3,000-£3,999. Roedd 12 benthyciad am y swm yma yn y flwyddyn (gostyngiad o tua 45% ers 2017/18 a 2016/17).

Yn 2016/17 a 2017/18, roedd nifer lleiaf y benthyciadau am £4,000-£5,000 gydag 16 benthyciad yn 2017/18 a 19 yn 2016/17.

## Map o godau post cwsmeriaid yng Nghymru, yr Alban a Lloegr



## Map o godau post cwsmeriaid yng Nghymru

